Strategaeth a Ffefrir – Lleisiwch Eich Barn

CYNGOR DINAS CASNEWYDD
CYNLLUN DATBLYGU
LLEOL NEWYDD (HYD AT 2036)

Mae Cyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor) yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) i gwmpasu'r cyfnod 2021-2036 a phan gaiff ei fabwysiadu bydd hyn yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) cyfredol. Bydd y CDLIN yn cynnwys polisïau a chynigion a fydd, gyda'i gilydd, yn darparu ar gyfer anghenion a dyheadau datblygu'r Ddinas yn ogystal â diogelu a gwella asedau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Casnewydd.

Ble rydym nawr?

Mae'r Cyngor yn y camau cynnar iawn o baratoi'r CDLIN. Nodir y camau a'r amserlenni amrywiol isod (glas wedi'i gwblhau, gwyrdd ar y gweill):



†Diweddarwyd y Cytundeb Cyflenwi ym mis Ionawr 2023.
*Mae'r dyddiadau'n Amcangyfrif

Nodir y camau a'r amserlenni hyn mewn rhagor o fanylder o fewn y Cytundeb Cyflawni cyhoeddedig. I gael rhagor o wybodaeth am y CDLI, ewch i wefan y Cyngor yn www.newport.gov.uk/RLDP.

Ymgynghoriad ar Strategaeth a Ffefrir Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2021-2036

Yn gynnar yn 2022, gofynnom am eich barn ar y Weledigaeth, Materion ac Amcanion i'r CDLIN i'w datblygu. Yn gynnar yn 2023, gofynnom am eich barn ar Dwf ac Opsiynau Gofodol, a fyddai'n sail i strategaeth y CDLIN.

Mae'r adborth a gafwyd gan amrywiaeth o rai sydd â diddordeb wedi ein helpu i baratoi Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y cyfnod 2021-2036. Hoffem nawr i chi roi barn ar y Strategaeth a Ffefrir ac rydym yn gofyn am sylwadau ar:

- Graddfa'r cartrefi, swyddi a chyflogaeth a gynigir
- Y Safleoedd Allweddol a'r dyraniadau presennol a nodwyd i gefnogi twf
- Y polisïau strategol sy'n ffurfio'r fframwaith i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion drwy ddatblygu newydd yng Nghasnewydd

Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Cychwynnol (CIC) a'r Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC)

Mae nifer o asesiadau technegol o'r strategaeth yn ofynnol yn ôl y gyfraith. Mae'r CIC yn gwerthuso'r potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd. Mae'n cyflawni'r gofynion ar gyfer:

- Arfarniad o Gynaliadwyedd (AC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEC)
- Asesu'r Effaith ar Iechyd (AEI)
- Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIC)
- Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LICD)

Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn asesiad o effeithiau posibl safleoedd Ewropeaidd gwarchodedig.

Mae Adroddiad CIC Cychwynnol ac Adroddiad Sgrinio ARC ar gael ar gyfer sylwadau a gellir eu gweld ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir.

Ymgynghoriad ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol

Cynhaliwyd 'galwad am Safleoedd Ymgeisiol' cyntaf yn 2021. Yn dilyn hyn, mae'r Cyngor wedi paratoi Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol (CSR) sy'n gofnod o'r safleoedd a gyflwynwyd i'r Cyngor. Mae'r CSR wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir a gall rhai sydd â diddordeb wneud sylwadau ar y safleoedd a gynigir i'r Cyngor. Bydd y sylwadau hyn yn llywio camau nesaf asesu'r safleoedd hyn. Gellir cynnig safleoedd ymgeisiol pellach ar hyn o bryd hefyd.

Sut allwch chi gysylltu â ni?

Gallwch weld y dogfennau ymgynghori a'r dystiolaeth ategol ar-lein neu'n bersonol yng Nghanolfan Ddinesig Casnewydd (drwy apwyntiad) neu Lyfrgell Ganolog Casnewydd.

Bydd yr ymgynghoriad yn fyw am **8 wythnos rhwng 25 Hydref a 20 Rhagfyr 2023**. Bydd sylwadau a dderbynnir yn cael eu defnyddio i lywio'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Blaendal neu 'ddrafft llawn'. I ymateb i'r ymgynghoriad, gallwch:

E-bost:	Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau drwy e-bost i LDP.consultation@newport.gov.uk
Post:	Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau at y Cyngor, wedi'i chyfeirio fel a ganlyn - Ymgynghori Strategaeth a Ffefrir Polisi Cynllunio Cyngor Dinas Casnewydd Y Ganolfan Ddinesig Casnewydd NP20 4UR
Manylion cyswllt:	Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech glywed am ymgynghoriadau CDLIN yn y dyfodol, cysylltwch â'r Tîm Polisi Cynllunio drwy E-bost: LDP.consultation@newport.gov.uk Ffôn: 01633 656 656

Strategaeth a Ffefrir – Cwestiynau Cyffredin

CYNGOR DINAS CASNEWYDD
CYNLLUN DATBLYGU
LLEOL NEWYDD (HYD AT 2036)

Beth yw'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN)?

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) yn ddogfen bwysig a fydd yn cynnwys polisïau a chynigion i lywio newid defnydd tir yng Nghasnewydd dros y cyfnod rhwng 2021 a 2036.

Y CDLIN yw'r haen isaf o'r "cynllun datblygu" a bydd yn rhaid iddo gyd-fynd ag unrhyw gynlluniau mabwysiedig sy'n eistedd uwch ei ben, megis polisi cenedlaethol a gynhwysir yn "Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040". Ar hyn o bryd nid oes Cynllun Datblygu Strategol wedi'i fabwysiadu ar gyfer y rhanbarth.

Mae'r CDLIN yn cael ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni Diwygiedig.

Y nod yw mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn gynnar yn 2026.

Sut mae'r CDLIN yn cael ei baratoi?

Mae'r CDLI yn cael ei baratoi gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae nifer o gamau i baratoi'r Cynllun a gwahanol gamau ymgynghori a chynnwys pobl wrth ei baratoi.

Cyn dechrau gweithio ar y CDLI, gwnaethom lunio Cytundeb Cyflawni sy'n nodi amserlen y CDLI a phryd a sut y gallai pobl gymryd rhan.

Wrth baratoi'r CDLI, byddwn yn adeiladu sylfaen dystiolaeth i lywio a chefnogi'r Cynllun.

Sut mae hyn yn wahanol i'r CDLI?

Yn debyg i'r Cynllun Datblygu Lleol 2011-2026 (CDLI) a fabwysiadwyd, bydd y CDLIN yn darparu ar gyfer anghenion a dyheadau datblygu'r Ddinas yn ogystal â diogelu a gwella asedau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Casnewydd. Fodd bynnag, mae'r CDLI presennol yn cwmpasu amserlen 15 mlynedd 2011-2026 ac o'r herwydd bydd y CDLIN yn edrych y tu hwnt i hyn i'r 10 mlynedd nesaf.

Roedd paratoi'r CDLI mabwysiedig yn dilyn yr un broses.

Beth yw'r Strategaeth a Ffefrir?

Nid papur ymgynghorol y Strategaeth a Ffefrir yw'r CDLI drafft llawn, ond mae'n cynnwys rhai o agweddau allweddol y CDLIN arfaethedig. Diben ymgynghori ar Strategaeth a Ffefrir yw adeiladu consensws ar rai o'r agweddau hyn ar y CDLIN a galluogi rhai sydd â diddordeb i roi adborth ar y rhain cyn paratoi'r cynllun drafft llawn, sef y Cynllun Adneuo.

I grynhoi, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnig bwrw ymlaen â gofyniad i'r CDLIN ddarparu 9,570 o gartrefi newydd ac 8,640 o swyddi newydd. Bydd nifer o ddyraniadau ac ymrwymiadau presennol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni hyn, fodd bynnag, cynigir rhagor o Safleoedd Allweddol i'r gogledd ac i'r de o Langstone ac i'r dwyrain o Lanwern. Mae nifer o bolisïau strategol wedi'u nodi i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth, gweledigaeth ac amcanion y CDLIN.

Pryd a ble alla i weld y dogfennau?

Bydd yr ymgynghoriad yn fyw am **8 wythnos rhwng 25 Hydref a 20 Rhagfyr 2023.**

Yn ystod y cyfnod hwn, byddwch yn gallu gweld y dogfennau ymgynghori a'r dystiolaeth ategol yn Llyfrgell Ganolog Casnewydd a Chanolfan Ddinesig Casnewydd (drwy apwyntiad) neu ar-lein yn www.newport.gov.uk/RLDP.

Mae dogfennau ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Paratowyd dogfen gryno hefyd sy'n ceisio darparu fersiwn fyrrach a symlach o'r ddogfen.

Bydd y Cyngor yn cynnal sesiynau galw heibio a digwyddiadau ymgysylltu drwy gydol yr 8 wythnos ac mae rhagor o wybodaeth am y rhain ar gael ar wefan y Cyngor yn www.newport.gov.uk/RLDP.

Sut alla i wneud sylwadau?

Gallwch gyflwyno sylwadau ysgrifenedig, yn Gymraeg neu Saesneg, i'r Cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori 8 wythnos. Gellir anfon y rhain at:

LDP.consultation@newport.gov.uk neu

Polisi Cynllunio, Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR.

Bydd sylwadau a dderbynnir ar ôl 20 Rhagfyr 2023 yn cael eu trin fel sylwadau hwyr ac efallai na fyddant yn cael eu hystyried ymhellach.

Byddem yn argymell i chi ddefnyddio'r ffurflen sylwadau i ateb cwestiynau'r ymgynghoriad. Cofiwch, os na ddefnyddiwch y ffurflen, efallai y byddwn yn gosod eich sylw ochr yn ochr â'r cwestiwn mwyaf perthnasol wrth brosesu a dadansoddi eich cynrychiolaeth.

Beth alla i wneud sylwadau arno?

Y dogfennau rydym yn croesawu eich sylwadau arnynt yw:

- Dogfen Ymgynghori Strategaeth a Ffefrir
- Cofrestr Safle Ymgeisiol
- Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Integredig Cychwynnol
- Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae nifer o ddogfennau ategol hefyd wedi'u cyhoeddi i gefnogi'r ymgynghoriad ac amlinellu'r dystiolaeth y mae'r Cyngor wedi'i hystyried wrth baratoi'r Strategaeth a Ffefrir.

Strategaeth a Ffefrir – Cwestiynau Cyffredin

CYNGOR DINAS CASNEWYDD CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD (HYD AT 2036)

A allaf wneud sylwadau ar Safle Ymgeisiol?

Gallwch. Mae'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol wedi'i chyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir.

Gallwch ddarparu sylwadau i gefnogi neu wrthwynebu'r safleoedd hyn.

Mae'r Fethodoleg Safleoedd Ymgeisiol a'r Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Integredig Cychwynnol yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn asesu'r safleoedd hyn ac efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi gyfeirio at hyn wrth baratoi eich sylwadau.

A yw Safleoedd Ymgeisiol yn cael eu dyrannu gan y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol?

Na. Mae'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn gofnod o'r safleoedd a hyrwyddir i'r Cyngor i'w gwarchod neu eu datblygu. Ar y cam hwn, mae'n amlinellu'r casgliadau o ymarfer didoli Cam 1.

Nid yw'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol ei hun yn dyrannu tir ar gyfer datblygu nac yn dynodi tir i'w warchod, dim ond cynllun datblygu all wneud hyn. Yn yr achos hwn, bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn ymgorffori cynigion sy'n gysylltiedig â thir a nodwyd yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol i'w warchod neu ei ddatblygu yn dilyn y prosesau asesu priodol.

Beth ddylwn i wneud sylwadau arno?

Mae'r Strategaeth a Ffefrir a'r camau adneuo o baratoi'r CDLIN yn rhoi cyfle i rai sydd â diddordeb roi sylwadau ar y polisïau a'r safleoedd a gynigir.

Gallwch gyflwyno sylw (-adau) yn gofyn am ddiwygio ffiniau dyrannu neu gynnig dileu neu ychwanegu safleoedd newydd.

Dylai'r holl sylwadau a wneir gael eu hategu gan sail resymegol gynllunio.

A fydd pobl yn gallu gweld fy sylwadau?

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae'r Cyngor yn bwriadu cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Bydd enw'r person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael ei gyhoeddi gyda'r ymateb. O'r herwydd, ni allwn dderbyn sylwadau dienw.

Bydd gwybodaeth yn cael ei chadw a'i chyhoeddi yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd Polisi Cynllunio Cyngor Dinas Casnewydd.

Sut bydd fy sylwadau'n cael eu defnyddio?

Bydd y sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried fel sylwadau ffurfiol i'r Strategaeth a Ffefrir neu ddogfennau eraill dan ymgynghoriad, gan lywio cynnwys y Cynllun drafft llawn/Cynllun Adnau. Bydd y Cyngor yn ystyried ac yn dadansoddi'r sylwadau a wnaed a bydd yn cyhoeddi ymatebion i'r rhain lle bo hynny'n briodol. Bydd sylwadau a wneir ar Safleoedd Ymgeisiol yn llywio'r broses asesu fanwl.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Cam nesaf y broses o baratoi'r cynllun fydd y cam 'Adneuo' pan ymgynghorir ar y CDLIN adneuo a cheisir sylwadau pellach.

Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd hyn yn digwydd yn Hydref 2024.